



Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol yn Ddaearegol

Gweithio gyda Chymunedau

Rhagfyr 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	3
Pennod 1 – Dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i gwestiynau'r Ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru	5
Pennod 2 - Themâu sy'n codi ar wahân i'r rhai mewn ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad ac ymatebion Llywodraeth Cymru	15
Atodiad 1 – Rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad	20

Cyflwyniad

Mae gwaredu gwastraff ymbelydrol yn fater datganoledig: felly Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu ar bolisi gwaredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru.

Cyhoeddwyd polisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd (GUA) ym mis Mai 2015.¹ Roedd y polisi'n mabwysiadu gwaredu daearegol fel yr opsiwn gorau yn yr hirdymor ar gyfer rheoli GUA ac yn cadarnhau barn Llywodraeth Cymru mai'r unig ffordd o gyflawni hyn yng Nghymru yw drwy gymunedau a allai gynnig lleoliad yn ymgysylltu o'u gwirfodd.

Roedd datganiad polisi Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 19 Mai 2015² hefyd yn rhoi cefndir y penderfyniad i fabwysiadu polisi gwaredu daearegol. Roedd y prif resymau dros y polisi newydd yn cynnwys:

- yr angen i sicrhau cydymffurfiaid â'r Gyfarwydddeb Gweddillion Tanwydd a Gwastraff Ymbelydrol;
- yr angen i sicrhau cysondeb â safiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â chefnogi gorsafoedd pŵer niwclear newydd ar safleoedd sy'n bodoli'n barod yng Nghymru;
- pontio'r cenedlaethau, hynny yw bod y genhedlaeth bresennol yn gorfod penderfynu sut i waredu'r gwastraff sydd wedi'i etifeddu yn dilyn 60 mlynedd o ddefnyddio deunydd ymbelydrol at ddibenion sifil a milwrol yn y gorffennol.

Agorodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol yn Ddaearegol: Gweithio gyda Chymunedau a allai fod yn Fodlon Cynnig Lleoliad' ar 25 Ionawr 2018. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos a daeth i ben ar 20 Ebrill 2018. Derbyniwyd 26 o ymatebion ysgrifenedig a 29 o ymatebion ar-lein.

Cyhoeddir yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn yr iaith y cawsant eu derbyn.

Os gofynnodd yr ymatebwyr i ni guddio eu manylion, rydym wedi gwneud hynny.

Os darparwyd deunyddiau ategol, nid ydynt wedi cael eu cyhoeddi, ond maent wedi cael eu hystyried. Mae'r deunyddiau ategol ar gael i unrhyw un sy'n gwneud cais amdanynt.

Rhestrir cwestiynau'r ymgynghoriad yn Atodiad 1 fel bod modd cyfeirio atynt yn rhwydd. Roedd y ffurflen ymateb swyddogol a'r ffurflen ymateb ar-lein yn rhoi cyfle i'r rhai a oedd yn ymateb ddweud a oeddent yn cytuno, yn cytuno gan mwyaf neu'n anghytuno â chwestiynau 1 i 9. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion ar-lein yn cofnodi hyn gan fod y system yn eu cymell i wneud hynny'n awtomatig. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd y blychau ticio mor aml mewn cyflwyniadau ysgrifenedig (7 allan o 26 ymateb):

Ymatebion Ysgrifenedig /

Ebost

	C1(a)	C1(b)	C1(c)	C2	C3	C4	C5	C6	C7	C8	C9
Cytuno	3	3	2	2	1	1	3	2	2	3	2
Cytuno gan mwyaf	2	2	2	3	4	2	2	4	3	1	3
Anghtuno	2	2	2	2	2	4	1	1	2	1	1

¹ <https://llyw.cymru/docs/desh/policy/150519-policy-on-the-management-and-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-cy.pdf>

² <https://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2015/haw/?skip=1&lang=cy>

Ymatebion Ar-lein

	C1(a)	C1(b)	C1(c)	C2	C3	C4	C5	C6	C7	C8	C9
Cytuno	6	9	7	6	6	15	7	6	6	12	12
Cytuno gan mwyaf	5	7	5	8	8	6	3	5	5	4	4
Anghytuno	15	10	16	14	10	3	16	17	15	10	9

Cyfanswm

	C1(a)	C1(b)	C1(c)	C2	C3	C4	C5	C6	C7	C8	C9
Cytuno	9	12	9	8	7	16	10	8	8	15	14
Cytuno gan mwyaf	7	9	7	11	12	8	5	9	8	5	7
Anghytuno	17	12	18	16	12	7	17	18	17	11	10

* Mae rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 1 ar ddiwedd y ddogfen hon.

Dylid nodi bod ffurf yr ymatebion yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, roedd rhai o'r ymatebion yn negeseuon ebost byr tra roedd eraill wedi defnyddio'r ffurflen ymateb swyddogol. Roedd hyd a manylder yr ymatebion hefyd yn amrywio. Roedd hyn yn wir hefyd am yr ymatebion ar-lein - roedd rhai ohonynt yn nodi'n syml a oeddent yn cytuno â'r cwestiynau ai peidio tra roedd eraill yn rhoi sylw manwl i'r cwestiynau.

Ni ddylai'r ffigurau uchod o reidrwydd gael eu hystyried fel adlewyrchiad o'r safbwyntiau manwl a fynegwyd yn yr ymatebion cyffredinol i'r ymgynghoriad. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r blychau ticio ar y ffurflen ymateb swyddogol a'r ffurflen ymateb ar-lein. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ar-lein wedi rhoi tic wrth eu dewis oherwydd bod y system yn gofyn iddynt wneud hynny'n awtomatig; nid oedd hynny'n digwydd yn achos ymatebion a dderbyniwyd drwy ebost neu drwy'r post. Roedd rhai o'r ymatebwyr ar-lein yn gwrthwynebu pob agwedd ar yr ymgynghoriad.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r sefydliadau a'r unigolion a gymerodd amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Pennod 1

Dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i gwestiynau'r Ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru

Crynodeb

Mae'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwn wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i bob cwestiwn i'w weld yn yr adran hon.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd i bob cwestiwn ac yn tynnu sylw at y prif faterion sy'n deillio o'r ymgynghoriad. Mae ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r prif themâu i'w gweld ym Mhennod 2.

Mae llawer o'r materion hyn wedi cael eu trafod o'r blaen yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Cais am Dystiolaeth³ ac mewn ymgynghoriadau⁴ ynglŷn â gwastraff ymbelydrol. Bydd Ymateb y Llywodraeth yn canolbwyntio ar y materion sy'n berthnasol i'r cwestiynau a godwyd a themâu newydd a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cwestiwn 1(a)

Ymgysylltu ffurfiannol yw'r broses ar gyfer nodi cymuned a allai gynnig lleoliad fel yr esbonnir ym mharagraffau 62 i 71. 1(a) Ydych chi'n cytuno â'r ffordd arfaethedig o nodi cymunedau? A oes gennych unrhyw ddulliau eraill y dylem eu hystyried?

Roedd rhai o'r ymatebion yn credu bod y diffiniad o "gymuned" yn annelwig. Teimlai rhai ei bod yn bwysig cael diffiniad hyblyg tra roedd eraill yn ffafrio rhywbeth mwy cyfarwyddol. Roedd consensws y dylai'r "gymuned", yng nghyswllt Cymunedau a Allai Gynnig Lleoliad, olygu'r ardaloedd a fyddai'n cael eu heffeithio pe bai Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD) yn cael ei ddatblygu. Er hyn, roedd rhai ymatebion o'r farn y dylai cymuned gynrychioli ardal ehangach na'r ardal a fyddai'n cael ei heffeithio'n uniongyrchol. Nodwyd bod cyfeiriad at ymgysylltu ffurfiannol yn Sweden fel enghraifft o ymarfer da rhyngwladol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Cred Llywodraeth Cymru ei bod yn bwysig bod y dull a ddefnyddir i nodi cymunedau yn ddigon hyblyg i ystyried gwahaniaethau rhwng cymunedau a allai fod â diddordeb mewn bod yn rhan o ymgysylltu ffurfiannol. Mae'n bwysig hefyd bod y trefniadau yng Nghymru yn gydnaws â'r rhai sydd yn Lloegr er mwyn sicrhau triniaeth deg i bob cymuned. Bydd y corff cyflawni, Radioactive Waste Management Ltd (RWM), yn darparu canllawiau manwl i egluro sut y bydd yn ymgysylltu ac yn gweithio gyda chymunedau maes o law.

Yr Ardal Chwilio yw'r ardal ddaearyddol lle bydd RWM yn ceisio nodi safleoedd addas posibl ar gyfer CGD. Gallai parti sydd â diddordeb gychwyn trafodaethau, a phe bai'n dymuno symud ymlaen, gallai ffurfio Gweithgor. Byddai'r Gweithgor yn cyflwyno cynigion ar gyfer Ardal Chwilio ac yn ceisio sefydlu Partneriaeth Gymunedol, a fyddai'n golygu bod

³ Gweler Pennod 2 o ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru 'Adolygiad o'r Polisi Presennol ar Waredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd' - <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/141023haw-consultation-cy.pdf>

⁴ <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/150528-haw-consultation-responses-cy.pdf>

^a <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/151210summary-of-responses-cy.pdf>

rhaid cynnwys unrhyw awdurdodau lleol sydd ag ardaloedd cynghorau cymuned yn yr Ardal Chwilio arfaethedig er mwyn gallu ystyried y tir hwnnw yn y broses leoli. Gallai'r Ardal Chwilio ddechrau â darn bach neu fawr o dir ac yna, ar ôl gwaith cwmpasu helaeth, gallai gael ei lleihau neu ei hehangu. Wrth i'r broses leoli esblygu dros gyfnod mae'n debyg y bydd yr Ardal Chwilio'n cael ei lleihau i Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad. Mae Llywodraeth Cymru yn credu mai'r rhai hynny a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan CGD ddylai gael penderfynu a ydynt yn barod i'w dderbyn ai peidio. Felly, cynigir mai dim ond ardaloedd cynghorau cymuned lle gallai'r canlynol gael eu lleoli ddylai fod yn rhan o Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad a gallu cymryd rhan yn y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd:

- elfennau arfaethedig o CGD ar yr wyneb ac o dan y ddaear;
- unrhyw ddatblygiad cysylltiedig sy'n berthnasol i'r cyfleuster CGD ac unrhyw dir sydd ei angen er mwyn lliniaru effeithiau;
- cysylltiadau/llwybrau trafnidiaeth o safle'r cyfleuster gwaredu daearegol i'r porthladd, y pen rheilffordd neu'r rhwydwaith o brif ffyrdd agosaf (h.y. allan i'r man lle mae'r is-ffyrdd yn cwrdd â'r ffyrdd Dosbarth A agosaf);
- effeithiau ffisegol uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau o dan y ddaear, adeiladu a gweithredu'r cyfleuster gwaredu daearegol (a nodwyd drwy waith asesu amgylcheddol a wnaethpwyd i gefnogi ymgysylltiad RWM â chymunedau a'i geisiadau am ganiatâd cynllunio).

O ran yr enghraifft o Sweden, lle mae ymgysylltu ffurfiannol yn cael ei ystyried fel ymarfer gorau, mae RWM yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhannu gwybodaeth â phartneriaid rhyngwladol, fel y corff cyflawni yn Sweden, er mwyn dysgu gwersi gan sefydliadau sydd â phrofiad yn y maes hwn.

Cwestiwn 1(b)

Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer cadeirydd annibynnol a hwyluswyr a gwerthuswyr annibynnol i helpu gyda'r gweithgareddau ymgysylltu ffurfiannol? A oes unrhyw ymagweddau eraill y dylem eu hystyried?

Roedd rhai o'r ymatebion yn nodi ei bod yn bwysig sicrhau bod y tîm hwyluso'n wirioneddol annibynnol ac nad yw wedi cael ei benodi gan y llywodraeth ganolog na llywodraeth leol. Awgrymwyd y dylai'r Llywodraeth ddysgu o brofiad y rhaglen MRWS, sef y Bartneriaeth Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yng Ngorllewin Cumbria. Awgrymwyd y dylai'r Cadeirydd a'r hwyluswyr annibynnol adlewyrchu sefyllfa ieithyddol y gymuned dan sylw. Mewn rhai ardaloedd bydd yn bwysig iawn sicrhau darpariaeth Gymraeg er mwyn annog a galluogi mewnbwn cywir gan bob parti.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Yn dilyn trafodaethau gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) penderfynwyd defnyddio'r term Gweithgor yn lle'r term tîm ymgysylltu ffurfiannol gan fod hynny'n llawer cliriach i'r cyhoedd. Mae polisi Gweithio gyda Chymunedau Llywodraeth Cymru yn egluro y dylai'r Gweithgor gynnwys y parti sydd â diddordeb, RWM, cadeirydd annibynnol a hwylusydd annibynnol. Gwahoddir yr awdurdod(au) lleol perthnasol i gymryd rhan ond nid yw hynny'n ofynnol yn y cam hwn o'r broses.

Mae RWM yn ymwybodol iawn ei bod yn bwysig sicrhau bod modd cynnal trafodaethau'n ddwyieithog. Mae RWM yn deall ei bod yn bwysig bod rhanddeiliaid yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith a bydd yn sicrhau bod darpariaeth addas ar gael neu'n cael ei threfnu.

Mae'n bosibl y bydd cael Cadeirydd a hwyluswyr annibynnol sy'n rhugl yn y ddwy iaith yn ystyriaeth bwysig mewn rhai cymunedau. Mae deunydd cyhoeddus RWM sy'n berthnasol i Gymru eisoes yn ddwyieithog, ac mae'r cwmni'n sylweddoli pa mor bwysig yw sicrhau bod modd darparu deunydd sydd ar gael i gymunedau a allai gynnig lleoliad, partïon sydd â diddordeb, neu rhanddeiliaid yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cwestiwn 1 (c)

Ydych chi'n cytuno â'r aelodaeth arfaethedig o'r tîm ymgysylltu ffurfiannol? A oes unrhyw aelodau posibl eraill y dylid eu hystyried? Rhowch eich rhesymau dros gynnig aelodau ychwanegol.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylai'r aelodaeth fod yn hyblyg ac y dylid gallu dod ag arbenigwyr i mewn yn ôl y galw h.y. gellid cael 'tîm craidd' ar gyfer ymgysylltu ffurfiannol a fyddai o bosibl yn hoffi cyfethol aelodau ychwanegol ar gyfer meysydd arbenigol penodol. Teimlid y byddai cael cadeirydd a hwyluswyr annibynnol i weithio gyda'r tîm ymgysylltu ffurfiannol yn meithrin ymddiriedaeth ac yn datblygu sgwrs ystyrion. Awgrymwyd y dylid ystyried cyrff anllywodraethol ar gyfer aelodaeth o'r tîm ymgysylltu ffurfiannol. Awgrymwyd hefyd y dylai awdurdodau cynllunio lleol a chynllunwyr mwynau arbenigol fod yn rhan o'r tîm ymgysylltu ffurfiannol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Swyddogaeth y tîm ymgysylltu ffurfiannol (Gweithgor bellach) yw ymgysylltu â'r gymuned ehangach ac ar ôl ystyried materion lleol, gan gynnwys agweddau technegol, daearyddol, gwleidyddol a diwylliannol, helpu i ddiffinio Ardal Chwilio a ffurfio Partneriaeth Gymunedol. Nid yw'r aelodaeth a awgrymir ar gyfer y Gweithgor yn y ddogfen ymgynghori yn gyfarwyddol a gellir ystyried partïon eraill.

Cwestiwn 2

A ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddiffinio Ardal Chwilio? A oes unrhyw ddulliau eraill y dylem eu hystyried?

Roedd llawer o'r ymatebion yn anghytuno â'r dull arfaethedig ac roeddent yn credu y dylid ystyried y 'ddaeareg orau' yn gyntaf a chwilio am gymunedau fyddai'n gwirfoddoli yn yr ardaloedd hynny sydd â'r cyfyngiant daearegol mwyaf addas.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Nid yw'r wybodaeth sydd ar gael am ddaeareg ddogfen rhannau helaeth o'r DU yn ddigon manwl i gefnogi proses 'sgrinio allan/i mewn' ac, o ganlyniad, proses 'daeareg orau'. Heb ragor o waith ymchwil manwl ar safleoedd penodol, nid yw'n bosibl nodi rhannau o'r wlad a fyddai'n bendant yn addas ar gyfer CGD. Mae'n debyg mai ychydig iawn o wybodaeth fydd ar gael am unrhyw safle posibl yng nghanau cynnar y broses werthuso. Rhaid i'r achos o blaid addasrwydd y safle ar gyfer CGD gael ei adeiladu drwy ymchwiliad cynyddol fanylach o'r safle. Byddai'r ymchwiliadau hyn yn edrych ar addasrwydd y safle o safbwynt

daearogol, a hefyd ar ei allu i gynnal y cyfleusterau CGD fyddai'n cael eu lleoli ar yr wyneb, a bod yn hygyrch i'r holl drafnidiaeth y byddai ei hangen ar gyfer y gwaith adeiladu a gweithredu. Er hyn, bydd rhagor o wybodaeth am ddaearog ardaloedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gael i gymunedau ar ddechrau'r broses nag a oedd ar gael o'r blaen. Er enghraifft, bydd data Sgrinio Daearegol Cenedlaethol⁵ wedi'u diweddarau ar gael a fydd yn rhannu gwybodaeth am ddaearog sy'n berthnasol i ddiogelwch CGD yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Er bod allbynnau'r sgrinio daearegol yn cynnwys Gogledd Iwerddon, oherwydd bod hyn yn ymrwymiad ym Mhapur Gwyn 2014 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, dim ond ar gyfer Cymru a Lloegr y byddant yn cael eu defnyddio i ddechrau. Mater i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, sydd wedi'i gohirio ar hyn o bryd, fyddai penderfyniadau polisi yn ymwneud â gwaredu daearegol yng Ngogledd Iwerddon yn y dyfodol.

Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ffurfio Partneriaeth Gymunedol sy'n cael ei chynorthwyo gan Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol? A oes dulliau eraill y dylem eu hystyried?

Roedd rhai o'r ymatebion yn credu bod cynllun manwl a gweithrediad y cynnig i greu'r cyrff hyn yn allweddol i'r broses ac, o ganlyniad, ei bod yn bwysig sicrhau nad yw cyfeiriad y bartneriaeth hon yn cael ei bennu gan bersonoliaethau cryf na chan y rhai sydd â diddordeb ariannol neu ddiddordeb arall mewn sicrhau bod y gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen neu ddim yn mynd yn ei flaen.

Awgrymwyd y bydd angen i'r corff cyflawni allu ymgysylltu'n ystyrion â'r gymuned ynglŷn â materion sy'n bwysig ac yn benodol iddynt hwy ac y dylai'r grym i'w ffurfio fod yn nwylo aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol. Mae angen i'r ymgysylltu fod yn seiliedig ar ryngweithio cymdeithasol a dylai fod yn ddealladwy i bob grŵp oedran. Mae hyblygrwydd yn bwysig ac ni ddylai'r aelodaeth a awgrymir yn yr ymgynghoriad gael ei hystyried yn gyfarwyddol. Dylid ceisio sicrhau cysondeb o ran aelodaeth os yw hynny'n bosibl.

Teimlai rhai o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig i'r corff cyflawni fod yn aelod, ond teimlai eraill nad oedd hyn yn briodol oherwydd ei fod yn cael ei weld fel corff a fyddai'n elwa'n bersonol pe bai CGD yn cael ei adeiladu.

Pwysleisiwyd mewn llawer o ymatebion bod rhaid i'r trafodaethau fynd yn eu blaenau ar gyflymder y mae'r gymuned ehangach yn fodlon ag ef. Mae angen i'r Bartneriaeth Gymunedol ystyried effeithiau y tu allan i'r cylch uniongyrchol e.e. trafnidiaeth.

Dylai'r Bartneriaeth esblygu wrth i'r prosiect gael ei ddatblygu a dylai geisio bod mor syml, clir, hyblyg, agored a thryloyw ag sy'n bosibl h.y. ni ddylai llynu'n gaeth at unrhyw broses fiwrocrataidd bosibl os nad yw hynny'n ofynnol.

Mynegwyd gwrthwynebiad cryf i'r posibilrwydd o adeiladu CGD mewn Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Awgrymwyd y dylai Awdurdod Parc Cenedlaethol gael swyddogaeth a fyddai o leiaf yn cyfateb i'r un a fwriedir ar gyfer awdurdodau lleol mewn Partneriaeth Gymunedol.

⁵ <https://www.gov.uk/guidance/about-national-geological-screening-ngs.cy>

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd polisi Gweithio gyda Chymunedau Llywodraeth Cymru yn golygu ei bod yn ofynnol i RWM fod yn rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol. Er y bydd yn aelod o'r Bartneriaeth Gymunedol, ni fydd RWM yn cynrychioli'r gymuned mewn unrhyw ffordd. Un o'r gwersi a ddysgwyd o'r polisi lleoli blaenorol yn Lloegr (a gwblhawyd yn Cumbria yn 2013) oedd nad oedd y gymuned yn cael mynediad digonol at arbenigedd RWM ar waredu daearegol ac y dylid rhoi sylw i hyn mewn unrhyw broses yn y dyfodol. Bydd cynnwys RWM yn y Bartneriaeth Gymunedol yn galluogi'r aelodau eraill i graffu a chyfrannu'n effeithiol at eu cynigion a dylai helpu i sicrhau bod sylw'n cael ei roi i holl gwestiynau a phryderon y gymuned. Gall RWM helpu i hwyluso mynediad at wybodaeth ac arbenigedd am waredu daearegol a rhoi'r Bartneriaeth Gymunedol mewn cysylltiad ag arbenigwyr o RWM neu sefydliadau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn bwysig bod y Bartneriaeth Gymunedol mewn sefyllfa dda i allu cynrychioli buddiannau'r gymuned ehangach. Felly, fel yr awgrymwyd, dylai gael ei ffurfio mewn ffordd sy'n sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn hanfodol bod trafodaethau'n symud ymlaen ar gyflymder y mae'r gymuned yn teimlo'n gyfforddus ag ef ac mae'n cytuno ei bod yn briodol i'r Bartneriaeth Gymunedol esblygu wrth i'r trafodaethau symud ymlaen a bod angen osgoi biwrocratiaeth ddiangen.

Os yw Parc Cenedlaethol neu AHNE o fewn Ardal Chwilio neu yn y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yna dylid gwahodd rhywun a allai gynrychioli eu buddiannau i ymuno â'r Bartneriaeth Gymunedol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylent gael swyddogaeth sy'n cyfateb i un awdurdodau lleol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr etholedig y gymuned leol.

Cwestiwn 4

Ydych chi'n ystyried bod y broses a nodir uchod ac a gaiff ei hamlinellu ym mharagraffau 100 – 102 ac mewn rhannau eraill o'r papur ymgynghori yn cynnig swyddogaeth sydd wedi'i diffinio'n addas i awdurdodau lleol perthnasol yn y broses leoli? A oes dewisiadau eraill y dylem eu hystyried?

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr bod angen mwy o eglurder ynglŷn ag union swyddogaeth awdurdodau lleol⁶ yn y broses leoli. Roedd y rhan fwyaf yn cydnabod ei bod yn hanfodol bod awdurdodau lleol yn ymwneud â'r broses, ond roedd y farn ynglŷn â pha mor ganolog ddylai eu swyddogaeth fod yn amrywio. Awgrymodd eraill ei bod yn iawn i awdurdodau lleol gael eu cynnwys yn gynnar yn y broses ond na ddylai fod yn orfodol iddynt ymuno â'r Bartneriaeth Gymunedol.

Teimlai rhai o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig bod yr awdurdodau lleol yn cael hawl benodol i ddefnyddio fetó, ond roedd eraill yn teimlo na ddylent gael yr hawl hon. Mynegwyd pryder y gallai awdurdod lleol, pe bai ganddo hawl i ddefnyddio fetó gloi cymuned mewn trafodaethau gan y byddai'n gallu rheoli'r hawl i dynnu'n ôl ac amseriad y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd. Neu, teimlid y gallai fetó gan awdurdod lleol atal trafodaethau

⁶ Defnyddir y term awdurdod lleol drwy gydol y ddogfen hon – mae'n cyfeirio at y 22 awdurdod unedol sydd yng Nghymru: <https://llyw.cymru/topics/localgovernment/unitary-authorities/?skip=1&lang=cy>

ystyrlon rhag digwydd. Teimlai rhai o'r ymatebwyr y byddai swyddogion etholedig yn cynrychioli pleidleiswyr ond roedd eraill yn bryderus y gallai buddiannau lleol a gwleidyddol atal rhan bwysig o seilwaith cenedlaethol. Mynegwyd pryder y gallai cynrychiolwyr etholedig beidio â rhoi sylw digonol i'r perygl i iechyd pobl ac i'r ecoleg leol a rhoi gormod o bwyslais ar fudd economaidd posibl CGD. Roedd pryder y gallai'r trafodaethau ynglŷn â derbyn CGD gymryd llawer iawn o amser, a phe bai cynghorwyr ac arweinyddiaeth yr awdurdodau lleol yn newid gallai hynny gael effaith fawr ar y trafodaethau. Mynegwyd pryder bod cynigion Llywodraeth Cymru yn tanseilio swyddogaeth cynghorau cymuned ac mai ychydig iawn y byddent yn gallu ei wneud o bosibl i atal CGD yn eu hardal.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryder ynglŷn â diffyg eglurder ynghylch swyddogaeth awdurdodau lleol yn yr ymgynghoriad. Bydd y papur polisi Gweithio gyda Chymunedau yn gwneud swyddogaeth awdurdodau lleol yn gliriach. Yn fyr, ni fydd yn ofynnol i awdurdod lleol gymryd rhan yn y trafodaethau cychwynnol nac yn y Gweithgor (y tîm ymgysylltu ffurfiannol cyn hyn) er y bydd yn derbyn gwahoddiad i gymryd rhan yn y Gweithgor. Ni ellir ffurfio Partneriaeth Gymunedol, ac ni all barhau i weithredu, os nad yw ei haelodaeth yn cynnwys awdurdod lleol neu awdurdodau lleol perthnasol. Os bydd awdurdod lleol sy'n aelod o'r Bartneriaeth Gymunedol yn penderfynu gadael y bartneriaeth bydd y broses leoli yn canfod ei hun yn yr ardaloedd cynghorau cymuned sydd o fewn yr awdurdod lleol hwnnw. Ni ellir gweithredu Hawl i Dynnu'n Ôl na Phrawf o Gefnogaeth y Cyhoedd heb gefnogaeth yr awdurdod lleol neu'r awdurdodau lleol perthnasol ar y Bartneriaeth Gymunedol. Byddai'n amhriodol i awdurdod lleol wneud y penderfyniadau hyn heb ymgysylltu'n llawn â'r broses.

Gallai'r Ardal Chwilio gynnwys nifer o ardaloedd cynghorau cymuned felly mae'n bosibl y byddai'n anodd i'r holl gynghorau cymuned sy'n dymuno bod yn rhan o'r broses gael eu cynrychioli'n unigol. Er hyn, mae Llywodraeth Cymru yn credu y byddai'n briodol gwahodd cynrychiolydd o gynghorau cymuned sy'n cael eu heffeithio i ymuno â'r Bartneriaeth Gymunedol. Pan fydd y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn hysbys, dylid ystyried cynnwys cynrychiolwyr o ardal(oedd) cyngor cymuned penodol.

Cwestiwn 5

Ydych chi'n cytuno mai ardal cyngor cymuned neu grŵp o ardaloedd cyngor cymuned, yng Nghymru, ddylai fod yn sail i nodi cymuned a allai gynnig lleoliad? A yw ffyrdd eraill o nodi ffin cymuned a allai gynnig lleoliad yn well? Rhowch eich rhesymau.

Mynegwyd rhywfaint o bryder ynglŷn â'r defnydd o ardaloedd cynghorau cymuned, er enghraifft efallai y byddent yn rhy fach neu efallai na fyddai'r gymuned leol yn ymwybodol o'r ffin neu'r ffiniau dan sylw. Ni chynigiwyd dewisiadau eraill ac roedd rhai o'r ymatebion yn awgrymu na fyddai unrhyw ffiniau gweinyddol a ddefnyddid yn nodi'r ardal briodol ar gyfer ymgysylltu a gwneud penderfyniadau yn gywir.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod problemau â pha bynnag ffiniau gweinyddol a ddefnyddir, ond mae'n dal i gredu mai ardaloedd cynghorau cymuned yw'r math mwyaf priodol o ffin i'w defnyddio yng Nghymru. O ran y pryder na fyddai'r ardal yn ddigon mawr, ni ddylai hyn fod yn broblem gan y bydd y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn cynnwys yr holl ardaloedd cynghorau cymuned y mae'r canlynol wedi'u lleoli ynddynt:

- elfennau arfaethedig o CGD ar yr wyneb ac o dan y ddaear;
- unrhyw ddatblygiad cysylltiedig sy'n berthnasol i'r cyfleuster CGD ac unrhyw dir sydd ei angen er mwyn lliniaru effeithiau;
- cysylltiadau/llwybrau trafnidiaeth o safle'r cyfleuster gwaredu daearegol i'r porthladd, y pen rheilffordd neu'r rhwydwaith o brif ffyrdd agosaf (h.y. allan i'r man lle mae'r is-ffyrdd yn cwrdd â'r ffyrdd Dosbarth A agosaf);
- effeithiau ffisegol uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag ymchwiliadau o dan y ddaear, adeiladu a gweithredu'r cyfleuster gwaredu daearegol (a nodwyd drwy waith asesu amgylcheddol a wnaethpwyd i gefnogi ymgysylltiad RWM â chymunedau a'i geisiadau caniatâd cynllunio).

Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddarparu cyllid buddsoddi cymunedol? A oes dulliau eraill y dylem eu hystyried?

Mynegwyd pryder y gallai'r cyllid buddsoddi annog cymuned i wirfoddoli am resymau economaidd yn unig. Awgrymwyd hefyd y dylid atal cymunedau rhag gwirfoddoli dim ond er mwyn cael mynediad at gyllid buddsoddi cymunedol. Nodwyd nad oedd Llywodraeth y Ffindir yn cynnig unrhyw fuddsoddiad uniongyrchol i gymunedau a allai gynnig lleoliad. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn gweld y cyllid buddsoddi fel llwgrwobrwyath.

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn ag effeithiau chwyddiant ar y cyllid a oedd ar gael. Gallai hwn fod yn swm sylweddol dros gyfnod y prosiect ac roedd angen mwy o eglurder ynglŷn â hyn. Nodwyd bod y cynigion yn gyson â chynlluniau buddsoddi cymunedol blaenorol yn defnyddio cyllid cyhoeddus sydd wedi cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Dadleuwyd y dylai'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol fod yn ychwanegol at fuddsoddiad arall sydd wedi'i gynllunio ac na ddylai gael ei ddefnyddio i wneud iawn am unrhyw ddiffyg yng nghyllid yr awdurdod lleol.

Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i effeithiau negyddol posibl CGD ar yr ardal leol e.e. ar dwristiaeth a busnesau lleol (yn enwedig busnesau sy'n gysylltiedig â bwyd).

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae CGD yn fuddsoddiad gwerth biliynau o bunnoedd mewn seilwaith ac mae'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr economi leol. Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif y bydd CGD yn darparu swyddi a budd i'r economi am dros 100 mlynedd. Bydd yn cynnig cyflogaeth uniongyrchol i tua 600 o staff medrus, fydd yn cael cyflog da, bob blwyddyn dros gyfnod y prosiect, a bydd niferoedd y gweithlu'n cynyddu i dros 1,000 yn ystod y cam adeiladu a'r gweithrediadau cynnar. Yn ychwanegol at hyn, mae hefyd yn debygol o olygu buddsoddiadau sylweddol mewn cyfleusterau trafnidiaeth lleol a seilwaith arall a chreu buddion eilaidd ym maes diwydiant, adnoddau addysg lleol a diwydiannau gwasanaeth lleol. Er hyn, ni fydd y buddion hyn i'w gweld am nifer o flynyddoedd. Mae Llywodraeth y DU felly'n sicrhau bod Cyllid Buddsoddi Cymunedol ar gael i'r cymunedau hynny sy'n ffurfio Partneriaethau Cymunedol ac yn cymryd rhan yn y broses leoli.

Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu na fydd cyllid cymunedol yn cael ei addasu i ystyried chwyddiant.

Gallai Partneriaeth Gymunedol gomisiynu ymchwil i ganfod a fyddai CGD yn cael effaith ar dwristiaeth neu fusnesau lleol.

Cwestiwn 7

Ydych chi'n cytuno â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer rheoli cyllid buddsoddi cymunedol? A oes trefniadau eraill y dylem eu hystyried?

Dywedodd rhai o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig bod y Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn cael ei reoli, ac yn cael ei weld yn cael ei reoli, yn annibynnol ar RWM ac mewn ffordd dryloyw y gellir craffu arni. Awgrymwyd y dylid cyllido lleisiau anghydsyniol drwy gydol y broses er mwyn darparu swyddogaeth herio.

Awgrymwyd hefyd bod Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn tynnu sylw oddi wrth y prif benderfyniad, sef a ddylid derbyn CGD ai peidio.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Byddai'n well gan Lywodraeth Cymru weld y Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn cael ei weinyddu gan gorff ar wahân i RWM. Gallai'r corff hwn fod yn gorff cymunedol neu gyhoeddus priodol pe bai ganddo'r set sgiliau angenrheidiol a statws cyfreithiol, a phe bai'n cydymffurfio â'r holl reolau caffael perthnasol. Byddai angen i'r corff a fyddai'n gweinyddu'r cyllid fod yn 'endid cyfreithiol' a byddai angen iddo wneud cytundeb(au) gydag RWM. Pwrpas y gwahanu ffurfiol hwn oddi wrth RWM, a fydd yn darparu'r Cyllid Buddsoddi Cymunedol, yw hybu tryloywder a dangos y gall y Bartneriaeth Gymunedol, â pharmedrau penodol a fydd yn cael eu nodi ym mholisi Gweithio gyda Chymunedau Llywodraeth Cymru, benderfynu sut i wario'r arian.

Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn cael cyfle i gomisiynu adroddiadau ac ymchwil o ffynonellau amrywiol gan gynnwys y rhai hynny a allai wrthwynebu gwaredu daearegol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y bydd Cyllid Buddsoddi Cymunedol yn tynnu sylw oddi wrth y drafodaeth ehangach mewn cymuned ynglŷn ag a ddylid derbyn CGD ai peidio. Fel yr eglurwyd yng nghwestiwn 6 uchod, cynigir Cyllid Buddsoddi Cymunedol fel cydnabyddiaeth bod trafodaethau a gwaith archwilio yn debygol o bara am flynyddoedd a bod posibilrwydd felly na fydd manteision adeiladu CGD mewn cymuned i'w gweld am beth amser.

Cwestiwn 8

A ddylai'r trefniadau i alluogi cymunedau i gael barn arbenigol trydydd parti, a nodir ym Mhapur Gwyn 2014 a gyhoeddwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon, ac a drafodwyd uchod, gael eu hystyried i gynnwys cymunedau yng Nghymru?

Mynegwyd amheuaeth gan nifer o'r ymatebwyr ynglŷn ag annibyniaeth y cymdeithasau dysgedig a chefnogid y syniad o ganiatáu i gymunedau gysylltu ag arbenigwyr eraill. Roedd ymatebion eraill yn awgrymu na ellid ystyried y materion y gallai cymdeithasau dysgedig ymdrin â hwy fel rhai cynhwysfawr a chodwyd amheuaeth ynglŷn â lefel eu harbenigedd am faterion niwclear. Roedd cefnogaeth gref i'r syniad o ganiatáu i gymunedau gael mynediad at arbenigedd annibynnol yn y DU neu dramor.

Mynegwyd pryder nad oedd yn ddigon clir pwy oedd â'r pŵer comisiynu i sicrhau arbenigedd annibynnol ac awgrymwyd y dylai cynigwyr, gwrthwynebwyr a phartion niwtral i gyd allu gwneud hynny.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn gallu gofyn am farn neu gomisiynu ymchwil o ffynonellau amrywiol. Mae hyn yn cynnwys cyngor a roddir gan neu drwy RWM ond ni fyddai hyn yn atal y Bartneriaeth Gymunedol rhag ceisio a chaffael cyngor yn uniongyrchol os oes angen. Gan ei bod yn bosibl y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn derbyn llawer iawn o gyngor cymhleth, gwyddonol / technegol a allai fod yn croesddweud ei gilydd weithiau, teimla Llywodraeth Cymru ei bod yn bwysig bod y Bartneriaeth Gymunedol yn cael mynediad at farn arbenigol annibynnol er mwyn datrys materion y mae dadlau yn eu cylch neu sydd heb eu datrys. Bydd aelodau o'r gymuned yn gallu argymhell bod y Bartneriaeth Gymunedol yn cyfeirio materion at nifer o Gymdeithasau Dysgedig drwy fecanwaith a sefydlwyd ar y cyd â Llywodraeth y DU.

Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn nodi, "Ni fydd yr aelodau o'r Cymdeithasau Dysgedig sy'n cytuno i fod yn rhan o'r mecanwaith hwn yn gwneud penderfyniadau, darparu argymhellion na rhoi cyngor. Yn hytrach, gofynnir iddynt gynnig barn arbenigol trydydd parti ar faterion technegol a gwyddonol, y gall y sawl a ofynnodd amdani ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ei brosesau neu ystriaethau ei hun." Bydd pwyllgor o'r Cymdeithasau Dysgedig hyn yn cael ei ffurfio er mwyn iddynt nodi arbenigwr priodol (gan ddibynnu ar y pwnc) y gofynnir iddo fynegi barn. Gall hon fod yn farn unigol neu'n farn y cytunir ami gan grŵp o bobl.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r honiad nad yw Cymdeithasau Dysgedig yn wirioneddol annibynnol – nid yw cymdeithasau dysgedig yn gysylltiedig â'r Llywodraeth ac maent yn bodoli er mwyn hybu disgyblaeth academiaidd, proffesiwn, neu grŵp o ddisgyblaethau cysylltiedig. Un o'r cyrff y gellir cael mynediad ato drwy'r mecanwaith hwn yw Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Cwestiwn 9

A yw'n briodol i'r Bartneriaeth Gymunedol benderfynu a ddylid arfer yr hawl i dynnu'n ôl a gofyn y cwestiwn i'r gymuned? A oes gennych farn ar ffyrdd eraill o benderfynu hyn?

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu y dylai'r hawl i dynnu'n ôl fod yn barhaus ac y dylai ddal i fod yn opsiwn hyd yn oed ar ôl y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd.

Awgrymwyd y gellid defnyddio technoleg i fonitro barn y cyhoedd yn ddiennw. Awgrymwyd hefyd y dylid cael polau piniwn rheolaidd a phe bai cefnogaeth yn mynd yn is na throthwy penodol y dylai hynny ysgogi tynnu'n ôl.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu y dylai'r Bartneriaeth Gymunedol allu arfer yr hawl i dynnu'n ôl ond roeddent yn pwysleisio ei bod yn bwysig sicrhau bod ei phroses wneud penderfyniadau yn gadarn ac yn briodol.

Awgrymwyd bod angen mwy o eglurder ynglŷn â'r rhyngweithiad rhwng "hawl i dynnu'n ôl" a "Phrawf o Gefnogaeth y Cyhoedd", a bod angen diffiniad cliriach o'r termau.

Awgrymwyd y dylai'r Hawl i Dynnu'n Ôl fod yn ganolog i unrhyw broses wirfoddol, ond dylid cynllunio'r broses hon er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd unrhyw achos o dynnu'n ôl yn seiliedig ar asesiad aeddfed o fanteision ac anfanteision cynnig y CGD. Dylai'r Cytundeb Gymunedol ddiffinio sut y bydd yr Hawl i Dynnu'n Ôl yn cael ei weithredu.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae polisi Gweithio gyda Chymunedau Llywodraeth Cymru yn egluro na all y Bartneriaeth Gymunedol symud ymlaen â'r Hawl i Dynnu'n Ôl na'r Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd os nad yw'r awdurdod(au) lleol perthnasol yn cytuno. Yn ychwanegol at hyn, gall awdurdod lleol i bob pwrpas weithredu Hawl i Dynnu'n Ôl ar gyfer yr ardaloedd cynghorau cymuned o fewn ei ffiniau drwy adael y Bartneriaeth Gymunedol. Gall yr awdurdod(au) lleol perthnasol ar y Bartneriaeth Gymunedol ddefnyddio'r Hawl i Dynnu'n Ôl ar unrhyw adeg hyd at y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd.

Mae'r Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd wedi'i gynllunio er mwyn canfod beth yw barn derfynol y gymuned, hynny yw, a yw'n fodlon derbyn CGD ai peidio. Pe na bai canlyniad cadarnhaol i'r Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd byddai'r broses leoli'n dod i ben yn y gymuned.

Byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer CGD o hyd, a byddai angen iddo fodloni safonau diogelwch a safonau amgylcheddol trylwyr er mwyn cael y trwyddedau angenrheidiol. Bydd y broses gynllunio a'r broses drwyddedu amgylcheddol yn cynnwys rhagor o ymgynghori â'r cyhoedd felly bydd y gymuned leol yn cael cyfle i gymryd rhan mewn deialog barhaus ar ôl y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Bartneriaeth Gymunedol fonitro'r farn gyhoeddus yn lleol ond hi fydd yn penderfynu beth yw'r ffordd orau o wneud hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai Cytundeb y Bartneriaeth Gymunedol egluro sut y mae'r Bartneriaeth Gymunedol yn bwriadu gweithredu Hawl i Dynnu'n Ôl.

Cwestiwn 10

Rhaid i Brawf o Gefnogaeth y Cyhoedd gael ei gynnal yn y gymuned a allai gynnig lleoliad cyn y gellir datblygu CGD. A yw'n briodol i'r Bartneriaeth Gymunedol benderfynu sut a phryd y dylid cynnal y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd? A oes gennych farn am sut arall y gellid penderfynu hyn?

Mynegwyd pryder mai dim ond un Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd sydd ar gael. Awgrymwyd na ddylai'r Bartneriaeth Gymunedol gael y grym i benderfynu sut a phryd y bydd y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd yn cael ei gynnal gan y bydd y penderfyniad yn effeithio ar genedlaethau nad ydynt wedi'u geni eto. Roedd ymatebwyr eraill yn cytuno ei bod yn briodol cael un bleidlais bendant.

Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â'r cwestiwn a fyddai cymunedau ar y llwybr trafnidiaeth yn gallu pleidleisio yn y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd.

Codwyd cwestiynau ynglŷn â sut y gellid sicrhau bod y Bartneriaeth Gymunedol yn cynllunio'r Prawf yn deg ac yn ei oruchwylio.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno ei bod yn briodol i'r Bartneriaeth Gymunedol benderfynu sut y dylai'r Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd gael ei gynnal ond roeddent yn awgrymu y gallai RWM ddarparu canllawiau ac y dylid ymgysylltu'n helaeth â'r gymuned cyn gwneud penderfyniad mor bwysig. Dylai materion fel y meini prawf, amseriad, trothwyon a'r broses ar gyfer symud tuag at Brawf o Gefnogaeth y Cyhoedd gael eu nodi'n glir yn y Cytundeb Cymunedol a/neu yng Nghylch Gorchwyl y Bartneriaeth Gymunedol.

Teimlid ei bod yn bwysig bod unrhyw brawf sy'n cael ei ddyfeisio yn gadarn ac yn dryloyw i'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad ac i gymunedau cyfagos.

Argymhellwyd y dylai gwyddonwyr cymdeithasol helpu i ddatblygu proses y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd er mwyn sicrhau ei fod yn deg ac yn gytbwys. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Comisiwn Etholiadol oruchwylio'r broses.

Awgrymwyd y dylai'r strwythurau democrataidd presennol, ar y lefelau isaf posibl, fod yn ganolog i'r broses ymgysylltu leol ac mai'r strwythurau democrataidd presennol hyn ddylai benderfynu pryd y dylid cynnal y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd, a hynny efallai ar sail pŵl piniwn annibynnol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Yn Lloegr yn unig y digwyddodd y broses leoli flaenorol ar gyfer CGD. Yn y broses flaenorol roedd gan yr awdurdodau lleol Hawl i Dynnu'n Ôl ar unrhyw adeg a hwy fyddai'n penderfynu'n derfynol a ellid lleoli CGD yn eu cymuned ai peidio. Nid oedd darpariaeth ar gyfer Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd yn y broses flaenorol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y byddai'n briodol cael nifer o brofion o gefnogaeth y cyhoedd oherwydd gallai hynny annog y Bartneriaeth Gymunedol i alw am Brawf o Gefnogaeth y Cyhoedd yn rhy fuan a chyn i'r gymuned gael yr holl wybodaeth angenrheidiol a chael cyfle i gael ateb i'w holl gwestiynau a phryderon ynglŷn â CGD. Bydd cael y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd yn ddiweddarach yn y broses yn galluogi pobl yn y gymuned i ddeall effeithiau cadarnhaol a negyddol derbyn CGD. Er hyn, bydd gan yr awdurdod lleol perthnasol hawl barhaus i dynnu'r gymuned yn ôl o'r trafodaethau, a gellir defnyddio'r hawl hon unrhyw bryd ar ôl ffurfio'r Bartneriaeth Gymunedol hyd at y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd gael ei gynnal ar ôl i'r gymuned gael cyfle i gael ateb i'w holl gwestiynau. Rhaid i'r prawf fod wedi'i gynnal cyn y gall RWM wneud cais am ganiatâd cynllunio a'r trwyddedau sydd eu hangen ar gyfer ymchwiliadau o dan y ddaear, ac ar gyfer adeiladu neu weithredu CGD. Ni fydd ceisiadau o'r fath yn cael eu gwneud os nad yw'r Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd yn gadarnhaol.

O ran faint o'r llwybr trafnidiaeth fydd yn cael ei gynnwys yn y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad, ac a fyddai o ganlyniad yn gallu cymryd rhan yn y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd, bydd hyn yn cynnwys yr ardaloedd cynghorau cymuned ar y llwybr o safle'r CGD arfaethedig i'r porthladd, pen rheilffordd neu rwydwaith prif ffyrdd agosaf (h.y. allan i'r man lle mae'r is-ffyrdd yn cwrdd â'r ffyrdd Dosbarth A agosaf).

Nid yw'n debygol y bydd llawer o effeithiau ar hyd coridorau trafnidiaeth o safleoedd storio gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd i CGD. Bydd gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn cael ei gludo dros gyfnod gweithredu hir felly bydd y gyfradd symud yn isel.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai Cytundeb y Bartneriaeth Gymunedol nodi sut y mae'r Bartneriaeth Gymunedol yn bwriadu cynnal Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd. Cred Llywodraeth Cymru ei bod yn briodol i'r Bartneriaeth Gymunedol benderfynu sut y bydd y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd yn cael ei gynnal ond bydd angen iddo fod yn deg ac yn dryloyw. Byddai Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio dulliau gwyddorau cymdeithasol neu gael goruchwyliaeth gan y Comisiwn Etholiadol pe bai'r Bartneriaeth Gymunedol yn penderfynu symud ymlaen yn y modd hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r strwythurau democrataidd presennol fod yn ganolog i'r broses a dyna pam y mae awdurdodau lleol perthnasol yn cael rhan bwysig a

chanolog yn y broses. Dylai'r Bartneriaeth Gymunedol hefyd ystyried sut i gynnwys cynrychiolwyr eraill sy'n cael eu hethol yn ddemocrataidd, megis cyngorwyr cymunedol.

Pennod 2

Themâu sy'n codi ar wahân i'r rhai mewn ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad ac ymatebion Llywodraeth Cymru

Mae'r bennod hon yn cynnwys ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r prif themâu a godwyd gan ymatebion i'r ymgynghoriad ar wahân i'r rhai sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at gwestiynau'r ymgynghoriad.

Nid oedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaredu daearegol na'r gefnogaeth i ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear newydd ar safleoedd sy'n bodoli'n barod yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi polisiau yn ymwneud â'r materion hynny. Er hyn, roedd llawer o'r ymatebion yn rhoi sylw i'r materion hyn yn ogystal â rhai materion eraill nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â chwestiynau'r ymgynghoriad. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 1, rhoddwyd sylw i lawer o'r materion hyn o'r blaen yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Cais am Dystiolaeth⁷ ac mewn ymgynghoriadau⁸ ynglŷn â gwastraff ymbelydrol. Bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar faterion newydd o bwys a godwyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i CoRWM a RWM am y mewnbwn mewn cysylltiad â rhai o'r materion technegol a godwyd.

Roedd rhai o'r ymatebion yn teimlo nad yw'n glir iawn beth fyddai'n digwydd pe na bai unrhyw gymunedau'n cymryd rhan yn y broses.

Mae sefyllfa Llywodraeth Cymru yn glir: ni ellir adeiladu CGD yng Nghymru oni bai fod Cymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn datgan yn bendant ei bod yn cydsynio i dderbyn y cyfleuster drwy Brawf o Gefnogaeth y Cyhoedd. Heb y cydsyniad hwn ni ellir gwneud cais am ganiatâd cynllunio i adeiladu CGD nac am y trwyddedau diogelwch a'r trwyddedau amgylcheddol sydd eu hangen.

Roedd rhai o'r ymatebion yn cyfeirio at achos yn Llys Amgylcheddol Sweden a oedd yn ymwneud â diogelwch defnyddio cynwysyddion copr i ddal gwastraff ymbelydrol.

Mae RWM yn ystyried nifer o ddeunyddiau posibl y gellid eu defnyddio i wneud cynwysyddion ar gyfer gwastraff sy'n cynhyrchu gwres uchel. Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto, yn y cam cyffredinol hwn o'r rhaglen CGD (heb safle penodol), ynglŷn â'r deunydd a fydd yn cael ei ddewis ar gyfer y cynhwysydd. Bydd y deunydd terfynol a ddewisir yn dibynnu ar ddaeareg/hydroddaeareg yr ardal lle bydd y CGD yn cael ei leoli ac ar ddyluniad penodol y safle yn y pen draw.

Mae RWM yn gweithio mewn cysylltiad agos â llawer o sefydliadau rheoli gwastraff rhyngwladol, gan gynnwys SKB, ac mae'n cyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd ynglŷn â'r agweddau gwyddonol a'r dechnoleg sydd y tu ôl i gysyniadau gwaredu, fel sail i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol yma yn y DU. Fel rhan o'r broses reolaidd hon o gyfnewid gwybodaeth, mae gan RWM raglen barhaus o waith technegol sy'n edrych ar gadernid cynwysyddion gwastraff sy'n cynhyrchu gwres uchel, gan gynnwys y cynwysyddion gwaredu copr sy'n cael eu defnyddio fel rhan o'r cysyniad KBS-3 yn Sweden.

⁷ Gweler Pennod 2 yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, 'Adolygiad o'r Polisi Presennol ar Waredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd' - <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/141023haw-consultation-cy.pdf>

⁸ <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/150528-haw-consultation-responses-cy.pdf>

^a <https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/151210summary-of-responses-cy.pdf>

Pa bynnag ddeunydd fydd yn cael ei ddewis ar gyfer cynwysyddion yn y DU yn y pen draw, bydd angen i RWM fodloni safonau diogelwch amgylcheddol llym a fydd yn cael eu gosod gan gyrff rheoleiddio annibynnol yn y DU – Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Swyddfa dros Reoli Niwclear.

Bydd effaith fawr ar y llwybrau a ddefnyddir i gludo deunydd ymbelydrol rhwng Sellafield a'r CGD. Mae pobl sydd ar y llwybrau hyn yn wynebu mwy o risg na'r rhai sy'n byw yn agos at y CGD.

Mae gan y DU dros 50 mlynedd o brofiad o gludo gwastraff a deunydd ymbelydrol yn ddiogel ar y ffyrdd, ar y rheilffyrdd ac ar y môr. Cludir tanwydd niwclear yn rheolaidd o weithfeydd cynhyrchu tanwydd i orsafoedd pŵer niwclear, a chludir gweddillion tanwydd niwclear o orsafoedd pŵer i Sellafield i gael eu hailbrosesu a'u storio.

Mae rheolau llym ar gyfer y gwaith cludo hwn ac mae'n cael ei reoleiddio'n drylwyr ac yn annibynnol er mwyn diogelu pobl, eiddo a'r amgylchedd. Nid chafwyd unrhyw achos o ddigwyddiad trafndiaeth sydd wedi arwain at ddos sylweddol o ymbelydredd i unigolyn sy'n ymwneud â chludo gwastraff a deunydd ymbelydrol rhwng cyfleusterau niwclear yn y DU.

Nid yw'n debygol y bydd llawer o effeithiau ar hyd coridorau trafndiaeth o safleoedd storio gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd i CGD. Bydd gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn cael ei gludo dros gyfnod gweithredu hir felly bydd y gyfradd symud yn isel.

Oherwydd y cyfnod hir cyn y gallai CGD fod yn weithredol dylid ymchwilio ymhellach i ddewisiadau eraill.

Mae gan RWM ymrwymiad parhaus i adolygu datblygiadau ym maes opsiynau amgen ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol. Cyhoeddwyd yr adroddiad diwethaf⁹ ym mis Mawrth 2017 ac roedd yn ystyried yr opsiynau amgen a ganlyn:

- Opsiynau Storio Interim Hirdymor
- Technegau Trin Gwastraff Uwch ei Actifedd
- Gwaredu yn Agos i'r Wyneb a Gwaredu Dyfnder Canolradd
- Gwaredu mewn Tyllau Turio Dwfn

Roedd yr adroddiad, fel yr adroddiadau blaenorol, yn dod i'r casgliad nad oes dewis amgen ar hyn o bryd, na chyfuniad o ddewisiadau amgen, a fyddai'n dileu'r angen am CGD yn llwyr.

Gallai opsiynau rheoli hirdymor eraill ddod i'r amlwg fel dewisiadau ymarferol amgen yn lle gwaredu daearegol ar gyfer rhai mathau o wastraff yn y dyfodol. Yn unol â hyn, mae'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear¹⁰ ac RWM¹¹ yn dal i adolygu atebion priodol gan gynnwys ymgysylltu â rhaglenni tramor a dysgu ohonynt, yn y gobaith y gellir gwella rheolaeth hirdymor rhywfaint o'r gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd sydd yn y DU. Ar hyn o bryd, nid oes dewisiadau amgen credadwy a fyddai'n darparu ar gyfer yr holl categorïau gwastraff

⁹ <https://rwm.nda.gov.uk/publication/geological-disposal-review-of-alternative-radioactive-waste-management-options/>

¹⁰ Strategaeth rheoli gwastraff ymbelydrol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear:
<https://www.gov.uk/government/consultations/nda-radioactive-waste-management-strategy>

¹¹ Geological Disposal: Review of Alternative Radioactive Waste Management Options:
<https://rwm.nda.gov.uk/publication/geological-disposal-review-of-alternative-radioactive-waste-management-options/>

yn y rhestr i'w gwaredu wedi dod i'r amlwg ac mae'n amlwg y bydd angen CGD o hyd ar gyfer rhai mathau o wastraff ymbelydrol uwch ei actifedd.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear adolygu opsiynau sydd â'r potensial i wella rheolaeth hirdymor rhai mathau o wastraff uwch ei actifedd yn y DU. Er mwyn cefnogi'r gofyniad hwn a Pholisi Gwastraff Uwch ei Actifedd Llywodraeth yr Alban, mae'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yn edrych yn fanylach ar opsiynau amgen ar gyfer rheoli gwastraff sydd ar y ffin rhwng gwastraff lefel ganolraddol a gwastraff lefel isel, gan gynnwys cyfleoedd i waredu GUA mewn cyfleusterau yn agos i'r wyneb. Bydd y Llywodraeth yn ystyried canfyddiadau'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear pan fydd y gwaith wedi cael ei gwblhau a bydd yn asesu'r goblygiadau o ran polisi'r Llywodraeth ar reoli GUA. Mae'n amlwg, fodd bynnag, y bydd angen rhyw fath o CGD o hyd mewn unrhyw senario realistig yn y dyfodol.

Gofynnwyd am eglurder ynglŷn â'r cwestiwn a yw Llywodraeth Cymru yn gweld rôl y Corff Rheoleiddio yr un fath ag y mae BEIS yn ei gweld, fel y mae'n cael ei hamlinellu ym mhapur ymgynghori BEIS.

Mae ymgynghoriad BEIS yn nodi'r canlynol dan y pennawd 'Rôl y Rheoleiddwyr':

"Mae'r rheoleiddwyr yn gyrrff annibynnol ac ni fyddant yn awdurdodi adeiladu a gweithredu cyfleuster gwaredu daearegol oni bai bod y corff cyflawni'n gallu dangos y bydd y cyfleuster yn ddiogel ac y bydd yr amgylchedd yn cael ei warchod. Mae'r Swyddfa dros Reoli Niwclear yn gyfrifol am reoleiddio diogelwch a diogeledd y sector niwclear ledled Prydain; mae'n trwyddedu safleoedd niwclear ac yn dal y trwyddedai i gyfrif am eu diogelwch a'u diogeledd. Mae'r Swyddfa dros Reoli Niwclear hefyd yn rheoleiddio cludiant deunyddiau ymbelydrol ac yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau y cyflawnir rhwymedigaethau'r Deyrnas Unedig o ran mesurau diogelu.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol am weithredu a gorfodi deddfwriaeth diogelu'r amgylchedd yn Lloegr, gan reoleiddio gollyngiadau ymbelydrol a rhai nad ydynt yn ymbelydrol i'r aer a dŵr a gwaredu gwastraff solid i dir."

Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bod yn cefnogi'r testun uchod yn gyfan gwbl. Y corff rheoleiddio ar gyfer diogelu'r amgylchedd yng Nghymru yw Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear yr un swyddogaethau rheoleiddio yng Nghymru ag sydd ganddi yn Lloegr.

Atodiad 1

Rhestr o Gwestiynau'r Ymgynghoriad

C1(a). Ymgysylltu ffurfiannol yw'r broses ar gyfer nodi cymuned a allai gynnig lleoliad fel yr esbonnir ym mharagraffau 62 i 71. 1(a) Ydych chi'n cytuno â'r ffordd arfaethedig o nodi cymunedau? A oes gennych unrhyw ddulliau eraill y dylem eu hystyried?

C1(b) Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer cadeirydd annibynnol a hwyluswyr a gwerthuswyr annibynnol i helpu gyda'r gweithgareddau ymgysylltu ffurfiannol? A oes unrhyw ymagweddau eraill y dylem eu hystyried?

C1(c) Ydych chi'n cytuno â'r aelodaeth arfaethedig o'r tîm ymgysylltu ffurfiannol? A oes unrhyw aelodau posibl eraill y dylid eu hystyried? Rhwch eich rhesymau dros gynnig aelodau ychwanegol.

C2 A ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddiffinio Ardal Chwilio? A oes unrhyw ddulliau eraill y dylem eu hystyried?

C3 Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ffurfio Partneriaeth Gymunedol sy'n cael ei chynorthwyo gan Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol? A oes dulliau eraill y dylem eu hystyried?

C4 Ydych chi'n ystyried bod y broses a nodir uchod ac a gaiff ei hamlinellu ym mharagraffau 100 – 102 ac mewn rhannau eraill o'r papur ymgynghori yn cynnig swyddogaeth sydd wedi'i diffinio'n addas i awdurdodau lleol perthnasol yn y broses leoli? A oes dewisiadau eraill y dylem eu hystyried?

C5 Ydych chi'n cytuno mai ardal cyngor cymuned neu grŵp o ardaloedd cyngor cymuned, yng Nghymru, ddylai fod yn sail i nodi cymuned a allai gynnig lleoliad? A yw ffyrdd eraill o nodi ffin cymuned a allai gynnig lleoliad yn well? Rhwch eich rhesymau.

C6 Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddarparu cyllid buddsoddi cymunedol? A oes dulliau eraill y dylem eu hystyried?

C7 Ydych chi'n cytuno â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer rheoli cyllid buddsoddi cymunedol? A oes trefniadau eraill y dylem eu hystyried?

C8 A ddylai'r trefniadau i alluogi cymunedau i gael barn arbenigol trydydd parti, a nodir ym Mhapur Gwyn 2014 a gyhoeddwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon, ac a drafodwyd uchod, gael eu hymestyn i gynnwys cymunedau yng Nghymru?

C9 A yw'n briodol i'r Bartneriaeth Gymunedol benderfynu a ddylid arfer yr hawl i dynnu'n ôl a gofyn y cwestiwn i'r gymuned? A oes gennych farn ar ffyrdd eraill o benderfynu hyn?

C10 Rhaid i Brawf o Gefnogaeth y Cyhoedd gael ei gynnal yn y gymuned a allai gynnig lleoliad cyn y gellir datblygu CGD. A yw'n briodol i'r Bartneriaeth Gymunedol benderfynu sut a phryd y dylid cynnal y Prawf o Gefnogaeth y Cyhoedd? A oes gennych farn am sut arall y gellid penderfynu hyn?

C11 A oes gennych unrhyw farn arall am y materion sy'n cael eu cyflwyno yn yr ymgynghoriad hwn?